Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Medi 2025, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, J. Kenney, K. R. Jones, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts ac A. J. Rutherford.

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 59. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am ddiffyg absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs D. L. King, B. Mellor a Miss C. L. Williams.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 60. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 61. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 16 Gorffennaf 2025 - Cofnodion rhifau 38-58

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 16 Gorffennaf 2025 - Cofnodion rhifau 5-8

Cynigiwyd gan y Cynghorwyr Ms V. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 62. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a chyfeiriodd at benwythnos Hwyl yr Haf, gan ddweud y bu presenoldeb da dros y ddeuddydd a'i fod wedi clywed adborth cadarnhaol iawn gan y cyhoedd.

Dywedodd y Dirprwy Faer bod y digwyddiad Sinema Awyr Agored wedi cael derbyniad da hefyd, a gofynnodd am ofyn llythyr o ddiolch i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

***PENDERFYNWYD*** derbyn yr adroddiad ac anfon llythyr o ddiolch i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 63. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI 2025 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Mis Gorffennaf

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 17.99 | Ffôn symudol |
| 2040 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| 2039 | BT | 39.91 | BT – Canolfan Cymuned Ffordd Wellington - taliad terfynol am y llinellau ffôn a galwadau |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 4 o 10 |
| 2043 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,537.13 | Tâl net tri aelod o staff – mis Gorffennaf 2025 |
| 2041 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,018.94 | Talu wrth Ennill – mis Mehefin 2025 |
| 2042 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 2,078.96 | Cyfraniadau pensiwn – mis Mehefin 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau – taliad 4 o 12 yn 2025/26 |
| n/a | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| 2054 | BT | 87.06 | BT - Swyddfa Neuadd y Dref – system rhentu ffonau |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **13,900.81** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 216.58 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Ad-daliad Treth ar Werth Chwarter 1 | 1,103.30 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 927.45 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **2,247.33** |

Mis Awst

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2057 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 5 o 10 |
| 2060 | Staff Cyngor Tref Rhuthun | 8,408.12 | Tâl net pedwar aelod o staff – mis Awst 2025 |
| 2058 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,047.73 | Talu wrth Ennill – mis Gorffennaf 2025 |
| 2059 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 2,771.09 | Cyfraniadau pensiwn – mis Gorffennaf 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau – taliad 5 o 12 yn 2025/26 |
| n/a | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **16,360.75** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 223.79 |
| Denbighshire CC | Praesept 2025/26 – Rhan-daliad 2 o 3 | 193,333.33 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 989.88 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **194,547.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 64. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwr | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2051 | MDM Gardening and Lawn Services | Deunydd bwydo'r lawnt yn y Gerddi Coffa | £42.00 |
| 2052 | David Kynaston – Arwyddion | Diweddaru Bwrdd Anrhydeddau'r Cyngor Tref | £210.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2053 | Zoom | Tanysgrifiad Zoom 2025/26 | £155.88 |
| 2056 | Sage & Co | Gwsasanaethau cyflogres – mis Ebrill – mis Mehefin 2025 | £133.40 |
| 2067 | BJS Solutions | Contract cynnal a chadw 2025/26 | £1,554.00 |
| 2068 | Scottish Power | Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig | £243.79 |
| 2069 | Cyng. J. Kenney | Lwfans treuliau a chostau 2025/26 | £208.00 |
| 2070 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | £259.32 |
| 2071 | Canda Copying Ltd | Ffioedd llungopïo | £76.43 |
| 2072 | Cyngor Sir Ddinbych | Gwerthusiad swydd | £275.00 |
| 2073 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu – mis Gorffennaf 2025 | £282.54 |
| 2075 | Cyngor Sir Ddinbych | Tâl gwasanaeth Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington Chwarter 1 2025/26 | £3,873.00 |
| 2076 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Canolbarth a Gogledd Cymru | Ffi aelodaeth 2025/26 | £80.00 |
| 2077 | Delwedd Ltd | Pecyn MS Office a chyfeiriad e-bost i'r cyflogau newydd (R Wheatley) | £138.24 |
| 2078 | Apêl Pabi Coch y Lleng Brydeinig | Dwy dorch ar gyfer Sul y Cofio | £100.00 |
| 2079 | Cyng. A. Walker | Lwfans y Maer 2025/26 – taliad 2 o 3 | £420.58 |
| 2079 | Cyfrif y Maer – Lloyds Bank | Ffioedd bancio - 3 mis | £12.75 |
| 2079 | Cyng. A. Walker | Lwfans Uwch Swydd 2025/26 - taliad 2 o 3 | £166.67 |
| 2079 | Cyng. J. Butterfield | Lwfans y Dirprwy Faer 2025/26 – taliad 2 o 3 | £133.34 |
| 2079 | Cyng. J. Butterfield | Lwfans Uwch Swydd 2025/26 - taliad 2 o 3 | £166.67 |
| 2080 | Amazon | Cwpanau ar gyfer y Sul Dinesig | £17.95 |
| 2081 | Amazon | Siwgr a ffyn troelli ar gyfer y Sul Dinesig | £12.98 |
| 2082a | Morrisons | Lluniaeth ysgafn a phapur ar gyfer y Sul Dinesig | £22.49 |
| 2082b | The Range | Lluniaeth ysgafn a phapur ar gyfer y Sul Dinesig | £19.94 |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2083 | Butteez Ltd | Arlwyo ar gyfer y Sul Dinesig | £432.00 |
| 2084 | Clwb Hamdden a Lles Gorsaf Dân y Rhyl | Cyfraniad at yr arddangosfa tân gwyllt 2025 | £5,000.00 |
| 2085 | BJS Solutions | 5 gliniadur Dell | £6,008.11 |
| 2086 | BJS Solutions | Pecyn gwrth-firws Trend (10 defnyddiwr) | £359.88 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£20,384.96** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 65. GOLEUADAU NADOLIG

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori fod y gwiriadau cyflwr blynyddol wedi'u wneud gan dîm Goleuadau Stryd Cyngor Sir Ddinbych.

Roedd yr adroddiad yn nodi fod mwyafrif yr unedau'n gweithio'n briodol, ond roedd rhai o'r unedau hŷn wedi methu'r prawf ac na ellid eu trwsio. Roedd y rhain yn cynnwys yr holl oleuadau a roir ar Neuadd y Dref yn arferol, a thair o'r unedau mwy diweddar.

Cynghorodd Clerc y Dref fod yr unedau mwy diweddar yn parhau o dan warant ac felly roeddynt wedi cael eu casglu, eu trwsio a'u dychwelyd i'r depo yn barod ar gyfer yr arddangosfa goleuadau eleni.

Atgoffodd yr aelodau fod rhan hynaf y cynllun angen ei uwchraddio, ac awgrymodd ystyried hyn yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyfateb i safon y goleuadau a brynwyd ddwy flynedd yn ôl.

Yn y cyfamser awgrymodd fod aelodau'n ystyried adnewyddu'r goleuadau ar gyfer Neuadd y Dre far unwaith, a thynnodd sylw at y prisiau a ddarparwyd gan ddarparydd goleuadau'r Cyngor, Blachere Illuminations, i'w hysytyried.

***PENDERFYNWYD*** *adnewyddu'r goleuadau Nadolig ar gyfer Neuadd y Dref, gyda dau liw (gwyn cynnes a gwyn llachar) yn fflachio'n araf a hyd 1m, ar gost £5,416.20 + TAW i'w dalu o'r gyllideb goleuadau Nadolig.*

## 66. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR – TWRISITAETH

Cyfeiriodd y Maer at gais gan Mr Noah Robinson, i drafod ein syniadau i annog ymwelwyr i ddod i'r Rhyl gyda'r Cyngor, yn enwedig ar ddyddiau digwyddiadau fel penwythnos Hwyl yr Haf a'r Sinema Awyr Agored eleni.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

## 67. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR – TWRISITAETH

Hysbysodd y Maer y derbyniwyd cais gan Ms Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych, i drafod twristiaeth.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

## 68. EITEM GAN AELOD: Y PROFIAD SINEMA AWYR AGORED

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ei bod wedi mwynhau'r digwyddiad sgrin fawr a'i bod wedi derbyn llawer o sylwadau cadarnhaol ar y diwrnod.

Bu'r tywydd yn garedig, a gynorthwyodd yn fawr, a soniodd am yr awyrgylch hyfryd yn y digwyddiad.

Cytuodd yr aelodau eu bod wedi derbyn adborth carnhaol hefyd, ond ychwanegwyd efallai y dylid ailystyried defnyddio cwpanau plastig yn y dyfodol. Hefyd dylid chwilio am ateb i leihau nifer y tocynnau a gymerwyd ond na chawsant eu defnyddio. Mae hon yn broblem gyffredin pan gynigir tocynnau am ddim.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd Hamdden Sir Ddinbych cyfyngedig i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i drafod y digwyddiadau ar y cyd a gynhaliwyd eleni.*

## 69. EITEM YCHWANEGOL: CYNGOR SIR DDINBYCH: CYFARFOD I DDIWEDDARAU CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd gwahoddiad i Glercod a Chadeiryddion fynd i'r cyfarfod hybrid uchod ddydd Llun, 29 Medi 2025 rhwng 2pm a 4pm.

Ychwanegodd y Clerc nad oedd y Maer yn medru bod yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith, ac atgoffodd yr aelodau fod y Cynghorydd Rutherford wedi mynychu'r cyfarfod gyda'r Clerc y llynedd.

Roedd yr agenda'n cynnwys cyflwyno'r Swyddog Cyswllt Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned newydd, Ms Kate Thew, a chyflwyniad gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol yn ogystal â diweddariad ar y gyllideb.

*[Ymunodd y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones â'r cyfarfod]*

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cynghorydd Rutherford a Chlerc y Dref yn ymuno yn y cyfarfod drwy gyfrwng Teams.*

## 70. SESIWN HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

## 71. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.*

**72. CYNGOR SIR DDINBYCH: TOILEDAU CYHOEDDUS Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 54 cyfarfod y Cyngor ar 16 Gorffennaf 2025, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinach (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gyfarwyddyd yr aelodau ar un elfen benodol o'r ymateb arfaethedig i Gyngor Sir Ddinbych cyn ei gyflwyno.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn rhoi rhagor o wybodaeth frys i'r aelodau drwy e-bost, a chytuno ar gonsensws er mwyn iddi anfon ymatb ffurfiol y Cyngor Tref i Gyngor Sir Ddinbych gynted ag y bo modd.*

**73. Y SEFYDLIAD: GWEITHREDU CYTUNDEB TÂL Y CYD-GYNGOR CENEDLAETHOL 2025-26**

Hysbysodd y Cadeirydd fod y dyfarniad cyflog Llywodraeth Leol wedi'i benderfynu yn awr, a gofynnodd am awdurdod yr aelodau i'w weithredu o 1 Ebrill 2025.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y dyfarniad cyflog abod Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol yn cael ei awdurdodi i roi cyfarwyddiadau i ddarparydd gwasanaethau cyflogres y Cyngor i'w weithredu o fis Hydref ymlaen.*

[Datganodd Mrs H. J. Mead a Mrs T. A. Jones fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod fel staff y Cyngor, a gadawsant y siambr heb gymryd unrhyw ran bellach yn y trafodaethau.]

**74. SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF**

Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad llafar mewn cyfrinachedd ar ran Pwyllgor Staffio'r Cyngor ynghylch y sefyllfa staffio gyfredol a'r trosglwyddo rhwng y Clerc a'r Dirprwy Glerc a'r Dirprwy Glerc i'r Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Gweinyddu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD*** *diddymu'r eitem sefydlog hon o agendâu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.*

**75. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ………………..………..